



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Arweinyddiaeth

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Mae arweinyddiaeth yr heddlu'n allweddol o ran galluogi llu i fod yn effeithiol, effeithlon a chyfreithlon. Fe wnaeth yr arolygiad hwn ganolbwyntio ar sut mae llun deall, datblygu ac arddangos arweinyddiaeth trwy ei ddatblygiad sefydliadol.

Mae'r tîm prif swyddogion ar gyfer Heddlu Gwent wedi cyflwyno ei ddisgwyliadau ar gyfer arweinwyr ar bob rheng a gradd ac mae'r disgwyliadau hynny'n glir ac yn cael eu deall yn dda gan y gweithlu. Mae gan Heddlu Gwent rywfaint o ddealltwriaeth o'i arweinyddiaeth ar wahanol rengoedd, graddau, rolau a thimau ar draws y llun. Gall nodi ac ymateb i fylchau o ran galluogrwydd arweinyddiaeth. Mae'r llun adweithio'n gyflym ac yn effeithiol pan yw wedi nodi problemau ynghylch arweinyddiaeth, gyda thimau rheoli lleol bach yn cymryd cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau. Er bod y llun darparu hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer rhingyllod, arolygwyr a phrif arolygwyr sydd newydd eu dyrchafu, nid yw'r llun asesu ei raglenni hyfforddiant arweinyddiaeth yn ffurfiol am eu gwerth. Nid oes gan y llun raglen reoli talent y gall staff ymgeisio iddi, ond nodir uwch-arweinwyr posibl trwy gymeradwyaeth reolaethol ac yna fe'u cefnogir yn dda i gyflawni eu potensial am arweinyddiaeth.

Mae Heddlu Gwent yn nodi gwerth syniadau newydd o bob rhan o'r gwasanaeth heddlu ac y tu hwnt. Mae'n gweithio'n dda gyda heddluoedd eraill yng Nghymru ac mae wedi edrych ar heddluoedd llwyddiannus iawn ar lefel genedlaethol er mwyn deall yn well sut y gall wella ei berfformiad ei hunan. Mae gan y llun ddiwylliant cryf o arloesi ac mae'n gweithio gyda phartneriaid masnachol i ennill arbenigedd wrth wella ei brosesau ei hunan a gwella ei ddealltwriaeth o alw'r cyhoedd am ei wasanaethau. Hefyd mae'r llun annog ei weithlu'n llwyddiannus i gyfrannu syniadau newydd ynghylch sut i wella gwasanaethau. Fodd bynnag, gallai wneud rhagor i gyhoeddi syniadau, ymagweddau ac arferion da i'w staff trwy fewnwyd y llun. Mae'r llun gweithio'n dda i wella amrywiaeth mewn timau arweinyddiaeth mewn cysylltiad â nodweddion gwarchoddedig (www.gov.uk/discrimination-your-rights/types-of-discrimination), ond hyd yn hyn nid yw'n deall amrywiaeth ar lefel ehangach. Mae hyn yn cynnwys deall bod amrywiaeth o ran cefndir a sgiliau'n rhan bwysig o gynhyrchu timau arweinyddiaeth sy'n barod am yr heriau a gyflwynir gan amgylchedd plismona cyfnewidiol.